# Mynegiad o Ddiddordeb: Trefi a Dinasoedd Natur

01/10/2024

See all updates

Gofynnwn i bob ymgeisydd sy'n gwneud cais am grant Trefi a Dinasoedd Natur rhwng £250,000 ac £1miliwn gyflwyno Mynegiad o Ddiddordeb cyn gwneud cais.

**Pwysig**

Nid ydym bellach yn derbyn Datganiadau o Ddiddordeb (EOI) ar gyfer Trefi a Dinasoedd Natur. Ein nod yw cysylltu â phob ymgeisydd erbyn 31 Ionawr 2025 i roi gwybod i chi beth yw canlyniad eich EOI.

Rhaid i chi gwblhau ein Mynegiad o Ddiddordeb (MoDd) safonol er mwyn ein galluogi i adolygu potensial eich prosiect i gyflawni uchelgeisiau'r fenter strategol Trefi a Dinasoedd Natur.

**Pwysig:** Mae Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol yn defnyddio'r un ffurflenni ar draws amrywiaeth o raglenni yr ydym yn eu darparu. Wrth lenwi eich cais, mae'n rhaid i chi ddilyn yr arweiniad isod am fod angen ateb rhai cwestiynau yn wahanol ar gyfer yr ariannu hwn.

Mae cyfrif geiriau'r MoDd yn fwriadol fyr (uchafswm o 1,000 o eiriau) er mwyn lleihau amser ac ymdrech i chi wrth gwblhau'r cam hwn.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno EOI oedd 12 canol dydd ar 12 Tachwedd 2024.

## Gwybodaeth ategol ychwanegol

Yn ogystal â chyflwyno MoDd, anfonwch ddogfen Word atom drwy e-bost sy'n cynnwys yr wybodaeth a ganlyn:

- rhestr o bartneriaid a sefydliadau rydych yn bwriadu gweithio gyda nhw
- Map yn null Arolwg Ordnans o'r ardal gyfan rydych yn bwriadu gweithio ar ei thraws, gyda llinell goch yn dangos y ffiniau. Darparwch y map fel delwedd wedi'i gludo i mewn i ddogfen Word yn hytrach na dolen.
- amcangyfrif o gyfanswm arwynebedd y mannau gwyrdd cyhoeddus yr ydych yn bwriadu gweithio ar eu traws mewn hectarau ac fel canran o ardal gyfan y prosiect
- cyfanswm y boblogaeth sy'n byw yn ardal eich prosiect

Ni ddylai'r ddogfen fod yn hwy na dwy dudalen o A4. Anfonwch hi drwy e-bost i: NTC@heritagefund.org.uk.

## Cyn cyflwyno

Cofiwch sicrhau eich bod wedi darllen:

- uchelgeisiau'r fenter hon ar y wefan Trefi a Dinasoedd Natur
- arweiniad ymgeisio Trefi a Dinasoedd Natur
- arweiniad ymgeisio Grantiau Treftadaeth y Loteri Genedlaethol: £250,000 i £10m

## Sut i gyflwyno

Pan fyddwch yn barod, cwblhewch y Mynegiad o Ddiddordeb ar ein gwasanaeth Cael eich ariannu ar gyfer prosiect treftadaeth.

Bydd angen i chi gofrestru cyfrif i chi'ch hun ac i'r sefydliad yr ydych yn gwneud cais amdano os nad oes gennych un eisoes.

## Cwestiynau'r Mynegiad o Ddiddordeb

Gallwch ddarllen cwestiynau'r Mynegiad o Ddiddordeb isod.

### Ydych chi wedi siarad ag unrhyw un yn y Gronfa Treftadaeth ynghylch eich syniad?

Dywedwch wrthym os ydych wedi siarad ag unrhyw un yn y Gronfa Treftadaeth a’n partneriaid neu staff o’r sefydliadau canlynol:

- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
- Natural England
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- NatureScot
- Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon

Dywedwch wrthym beth yw eu henw, teitl swydd a sefydliad.

### Disgrifiwch yr hyn y byddwch yn ei wneud yn ystod y prosiect.

Mae gennych 200 o eiriau.

Dywedwch wrthym pam fod angen cynllun uchelgeisiol newydd ar gyfer eich mannau gwyrdd a glas cyhoeddus a pha heriau a chyfleoedd y bydd yn mynd i’r afael â nhw.

Dywedwch wrthym am eich gweledigaeth strategol a'ch uchelgais ar gyfer parciau trefol a mannau gwyrdd.

## A oes gennych deitl ar gyfer y prosiect?

Gellir newid hyn unrhyw bryd.

Rhaid rhoi #NTC ar ddechrau teitl eich prosiect fel y gallwn nodi yr hoffech wneud cais am grant Trefi a Dinasoedd Natur.

## Amlinellwch sut y bydd eich prosiect yn ymateb i'n pedair egwyddor fuddsoddi.

Mae gennych 300 o eiriau.

Wrth feddwl am bedair egwyddor fuddsoddi’r Gronfa Treftadaeth, dywedwch wrthym sut:

- y bydd eich prosiect yn cefnogi adferiad byd natur trefol ar raddfa fawr ar draws eich ardal
- y byddwch yn gweithio gyda chymunedau lleol ar draws eich ardal i helpu pobl i gael mynediad gwell a mwy cyfartal i fannau gwyrdd cyhoeddus ger eu cartrefi
- y bydd eich prosiect yn defnyddio atebion sy’n seiliedig ar fyd natur i wella iechyd, ffyniant, cysylltiad cymunedol, balchder mewn lle a chydnerthedd hinsawdd
- y bydd eich prosiect yn eich helpu i ddylunio modelau gweithredol ac ariannu newydd i ddatgloi ariannu yn y dyfodol

## Dywedwch wrthym am dreftadaeth y prosiect.

Mae gennych 100 o eiriau.

Ar gyfer y fenter hon dywedwch wrthym am ardaloedd o fannau gwyrdd cyhoeddus presennol ac ardaloedd lle y gwelwch botensial i drawsnewid mannau llwyd i fannau gwyrdd.

Dywedwch wrthym am yr ardal ddaearyddol y bydd eich prosiect yn canolbwyntio arni, er enghraifft:

- ardal(oedd) gweinyddol awdurdod(au) lleol
- dinas-ranbarth
- gr?p o drefi

Dywedwch wrthym am y mathau o fannau. Er enghraifft:

- parciau hanesyddol
- mannau gwyrdd cymunedol
- llwybrau gwyrdd llinellol
- mannau newydd

Gofynnir i chi ddarparu map o ffin yr ardal a brasamcan o gyfanswm yr arwynebeddau mewn dogfen ar wahân.

### Beth yw’r angen am y prosiect hwn?

Mae gennych 200 o eiriau.

Disgrifiwch unrhyw waith paratoadol yr ydych eisoes wedi cychwyn arno i ddeall anghenion pobl leol a photensial yr ardal lle y byddwch yn gweithio. Dywedwch wrthym a fydd y prosiect hwn yn adeiladu ar waith strategol arall sy’n ymwneud â mannau gwyrdd cyhoeddus neu unrhyw gysylltiadau â gwaith arall.

### Faint o amser ydych chi'n meddwl y bydd y prosiect yn ei gymryd?

Mae gennych 50 o eiriau.

Gan dybio mai Gorffennaf 2025 yw'r dyddiad dechrau, dywedwch wrthym faint o amser y bydd eich prosiect yn ei gymryd i'w gyflawni.

### Faint mae'r prosiect yn debygol o gostio?

Mae gennych 200 o eiriau.

Gallwch wneud cais am grant rhwng £250,000 ac £1m tuag at gost eich prosiect. Os ydych yn gwybod beth ydyn nhw, dywedwch wrthym am y costau allweddol disgwyliedig. Gall y rhain fod yn amcangyfrifon.

### Faint o ariannu ydych chi’n bwriadu gwneud cais amdano gennym?

Nodwch swm. Gallwch wneud cais am grant rhwng £250,000 ac £1m.

### Pryd ydych chi'n debygol o gyflwyno cais am ariannu, os gofynnir i chi wneud hynny?

Does dim angen i chi ateb y cwestiwn hwn. Os byddwch yn llwyddiannus yn y cam MoDd, fe gaiff eich gwahodd i gyflwyno’ch cais erbyn dydd Gwener 7 Mawrth 2025.

## Clywed yn ôl gennym

Byddwn yn ceisio ymateb i bob MoDd erbyn 31 Ionawr 2025.

Os ydych yn llwyddiannus, fe gewch eich gwahodd i gyflwyno cais llawn o fis Chwefror 2025.

Bydd rhagor o wybodaeth am sut i wneud cais yn cael ei darparu os bydd eich EOI yn llwyddiannus.

Bydd penderfyniadau ariannol yn cael eu gwneud yn haf 2025.